

CWESTIYNAU CYFFREDIN AM WJCB 2020-2022

C: Pam ein bod ni'n cyfeirio at unigolion fel pobl sy'n dod o gefndir economaidd-gymdeithasol is? Pam na ddywedwn ni ddsbarth gweithiol?

A: Gall dosbarth fod yn derm awgrymog. Rydym ni'n sôn am 'gefndir economaidd-gymdeithasol' yn hytrach na dosbarth oherwydd mae'n ein helpu i fod yn fwy penodol. Mae hefyd yn ein helpu i greu cysylltiad yn haws rhwng ein gwaith ni a gwaith sefydliadau eraill sy'n gweithio ym maes cyfiawnder cymdeithasol, ond y tu allan i'r sector celfyddydau. Er enghraifft, mewn ymchwil academiaidd ym maes symudedd cymdeithasol, cefndir economaidd-gymdeithasol neu darddiad economaidd-gymdeithasol yw'r termau sy'n cael eu ffafrio. Mae'r term yn cyfeirio at y gyfres benodol o amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd y mae unigolyn wedi'i fagu ynddyn nhw. Mae'n go debygol y bydd unigolion o gefndir economaidd-gymdeithasol is wedi mynd i un o ysgolion y wladwriaeth, efallai y byddan nhw wedi cael pryddau ysgol am ddim yn blant, neu efallai fod incwm yr aelwyd yn isel pan oedden nhw'n tyfu. Efallai eu bod nhw wedi'u magu yn y system gofal, neu mai nhw oedd y cyntaf yn eu teulu i fynd i'r brifysgol. Mae dosbarth gweithiol, neu ddsbarth budd-daliadau, yn dermau eraill y gallai pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is uniaethu â nhw. Os yw unigolion o gefndir economaidd-gymdeithasol is, mae'n fwy tebygol y byddan nhw'n wynebu rhwystrau mewn cymdeithas – rhwystrau sy'n rhyngblethu – gan brofi hiliaeth, gwahaniaethu ar sail abledd, neu fathau eraill o wahaniaethu. Mae swyddogion y rhaglen wedi bod yn meddwl yn ofalus am iaith ers iddi ddechrau yn 2010.

Mae rhagor o wybodaeth am amrywiaeth economaidd-gymdeithasol a'r camau rydym ni'n galw am eu rhoi ar waith i'w gweld yn y [Pecyn Cymorth](#) hwn.

C: Beth rydym ni'n ei olygu wrth sôn am rhyngblethedd?

A: Mae rhyngblethedd yn cyfeirio at sut y mae nodweddion fel hil, dosbarth, a rhywedd yn plethu yn ei gilydd, o ran sut mae'r rheini'n berthnasol i unigolyn neu grŵp penodol. Credir bod y nodweddion hyn yn creu systemau sy'n achosi gwahaniaethu ac anfantais, a'r rheini'n gorgyffwrdd ac yn ddibynnol ar ei gilydd. Mae'r rhaglen yn mynd ati'n bwrsol i gydnabod sut y mae cefndir economaidd-gymdeithasol yn rhyngblethu â nodweddion gwarchoddedig fel rhywedd, anabledd a hil.

C: Pa ffurfiau ar gelfyddyd ac arferion y mae'r rhaglen yn eu cefnogi?

A: Mae'r rhaglen yn cefnogi swyddi mewn amgueddfeydd, orielau, theatrau, lleoliadau celfyddydau awyr agored a stiwdios, ymhlith eraill. Mae'r ystod eang o swyddi gwahanol yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hyn: Artistiaid Preswyl, Cyfansoddwyr, Cynhyrchwyr, Curaduron Cynorthwyol, Awduron Preswyl, Cyfarwyddwyr, Hwyluswyr, a Dylunwyr Preswyl. Mae rhestr lawn o'r swyddi a'r sefydliadau i'w gweld [fan hyn](#).

C: Pam fod y rhaglen yn canolbwyntio ar gefnogi Cymrodoriaethau artistig a chreadigol?

A: Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar helpu'r genhedlaeth nesaf o artistiaid, cynhyrchwyr, curaduron ac unigolion creadigol medrus o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is i wneud cynnydd yn eu gyrfaoedd yn y celfyddydau. Mae pob Cymrodoriaeth wedi'i chynllunio fel bod perthynas ystyrlon rhyngddi ag arweinyddiaeth artistig neu ddiwylliannol y sefydliad dan sylw.

Mae pwyslais y rhaglen ar swyddi artistig a chreadigol wedi'i seilio ar sawl ystyriaeth. Yn ariannol, mae'n gynyddol anodd i sefydliadau ddadlau'r achos dros gynnal y swyddi hyn. Yn sgil diffyg cynnydd mewn cyllid, a thoriadau drwy'r holl sector yn y degawd diwethaf, mae llawer llai o swyddi artistig ar gael yn y sector, ac mae natur y rheini wedi newid. Mae hyn wedi cynnwys cwtogi swyddi curaduron, troi swyddi creadigol yn swyddi 'cyswllt' llawrydd, a cholli swyddi rheolwyr llenyddol mewn theatrau.

I gael yr effaith hirdymor fwyaf ar y sector, o ran cyflwyno arweinyddiaeth a lleisiau mwy amrywiol, credwn fod angen mwy o amrywiaeth economaidd-gymdeithasol mewn swyddi artistig a chreadigol ar lefel gyrfa gynnar.

Yn olaf, cefnogi artistiaid yn gynnar yn eu gyrfaoedd yw arbenigedd Jerwood Arts, a bydd y pwyslais ar swyddi creadigol yn ein galluogi i roi'r gefnogaeth, y cyngor a'r arweiniad gorau posibl ar sail ein profiad hyd yma.

C: Dim ond ambell un o'r Cymrodoriaethau sy'n agored ar gyfer recriwtio ar hyn o bryd. Pryd fydd y lleill yn agor?

A: Cyhoeddwyd rownd gyntaf y Cymrodoriaethau gennym ddydd Mawrth 20 Hydref. Bydd y cyfleoedd eraill am swyddi yn agor ar gyfer recriwtio rhwng nawr a mis Ebrill 2021. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd newydd wrth iddyn nhw gael eu cyhoeddi, rydym yn argymhell eich bod chi'n cadw golwg ar y dudalen hon yn rheolaidd, gan fod yr holl gyfleoedd yn cael eu rhestru yma.

Sylwch nad yw Jerwood Arts yn derbyn ceisiadau am y swyddi hyn yn uniongyrchol. Bydd angen ichi wneud cais am bob swydd drwy'r Sefydliad Cynnal yr hoffech chi weithio iddo fel rhan o broses recriwtio'r sefydliad hwnnw.

C: Oes modd gwneud cais am fwy nag un o'r Cymrodoriaethau?

A: Oes. Mae croeso ichi wneud cais am fwy nag un o'r cyfleoedd. Bydd angen ichi wneud cais am bob swydd drwy'r Sefydliad Cynnal yr hoffech chi weithio iddo, yn unol â phroses recriwtio'r sefydliad hwnnw, a bydd angen ichi gyflwyno cais newydd bob tro. Gofynnwn ichi beidio ag anfon eich cais at Jerwood Arts.

C: Pam nad oes swyddi llawrydd ar gael? A fydd pob Cymrawd ar y gyflogres?

A: Bydd yr holl Gymrodorion yn cael eu rhoi ar gyflogres y sefydliad sy'n eu cyflogi, ac mae hynny'n golygu y byddan nhw'n cael cyflog rheolaidd. Mae hyn i sicrhau bod gan bob Cymrawd sicrwydd ariannol drwy gydol y rhaglen, a sicrwydd na fydd cwtogi ar eu horiau na'u cyflogau yn ystod eu cyfnod yn y sefydliad.

C: A yw'r cyflog yr un fath ym mhob swydd sy'n rhan o'r rhaglen?

A: Y cyflog rydym ni wedi'i osod i Gymrodorion yw £19,500 (£22,425 yn Llundain, wedi'i bwysoli +15% yn unol â gwahaniaeth y Sefydliad Cyflog Byw). Mae'r rhaglen yn talu hyd at 90% o gyflogau Cymrodorion, a bydd y Sefydliadau Cynnal yn cyfrannu'r swm sy'n weddill. Mae'r cyflog wedi'i feincnodi yn genedlaethol yn erbyn swyddi gyrfa gynnar i unigolion sydd â rhwng 2 a 5 mlynedd o brofiad ers gadael yr ysgol. Mae'r cyflog yn uwch na lefelau isaf y Sefydliad Cyflog Byw. Mae rhai Sefydliadau Cynnal wedi penderfynu cynyddu'r cyflog pan fydd angen gwneud hynny i gyd-fynd â'u bandiau cyflog eu hunain.

C: Sut wnaethoch chi benderfynu ar y cyflog hwn?

A: Y tro diwethaf inni gynnal y rhaglen hon, gosodwyd cyflogau Cymrodorion yn unol ag isafswm cyflog y [Sefydliad Cyflog Byw](#) yn genedlaethol, gan bwysoli hynny i Lundain. Awgrymodd yr adborth a gawsom gan y Cymrodorion fod y cyflog yn go isel, yn enwedig yn achos y traean oedd wedi adleoli i gael swydd. Hefyd, roedd amrywiaeth sylweddol yn lefelau'r cyfrifoldebau a roddwyd i Gymrodorion gan y Sefydliadau Cynnal, er eu bod ar yr un cyflog. Adborth y Sefydliadau Cynnal oedd nad oedd y cyflog wastad yn adlewyrchu lefel y cyfrifoldeb roedden nhw'n awyddus i'w gynnig.

Mae'r rhaglen wastad wedi ceisio codi lefelau cyflog, yn hytrach na meincnodi yn erbyn arferion cyflog gwael. I ymateb i hyn felly, mae lefel y cyflog wedi'i gynyddu'n sylweddol ar gyfer 2020-2022.

Drwy ganolbwyntio ar swyddi artistig a chreadigol, rydym am sicrhau bod lefel y cyflog yn anfon neges glir nad hyfforddeiaethau yw'r Cymrodoriaethau hyn, ac na ddylai'r cyflog fod ar yr un lefel â chyflogau cynlluniau hyfforddiant neu brentisiaethau. Y bwriad yw eu bod yn swyddi yn gynnar yng ngyrfa rhywun, yn hytrach nag yn swyddi dechrau gyrfa.

Wrth osod y cyflog newydd, rydym wedi ymchwilio i gyfraddau isaf y diwydiant ar gyfer swyddi artistig a chreadigol, a hynny gan ddefnyddio nifer o ffynonellau. Mae'r gwaith ymchwil hwn wedi pwysleisio drachefn y dylai'r Cymrodoriaethau roi cydnabyddiaeth deg am hyfforddiant a sgiliau artistig a chreadigol, a hynny ar yr un lefel neu'n uwch na'r gydnabyddiaeth a roddir i bobl sy'n gwneud swyddi gweinyddol.

Mae ymchwil diweddar ym maes y diwydiannau celfyddydol a chreadigol yn dangos pa mor ansicr yw swyddi artistig a chreadigol o hyd, ac mae'r sefyllfa hon wedi gwaethygu yn sgil Covid-19. Gall y cyfle i fwynhau sefydlogrwydd swydd gyflogedig fod yn hynod o bwysig, hyd yn oed os mai uchelgais rhywun yn y pen draw yw cael gyrfa lawrydd, bortffolio. Mae'r rhaglen yn cydnabod bod hyn yn arbennig o wir yn achos pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Mae'n annhebygol y bydd gan y bobl hyn y sicrwydd cyfochrog, y cyfalaf diwylliannol, yr adnoddau na'r rhwyd ddiogelwch ariannol sydd ar gael yn fwy parod i bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch.

C: Sut y daeth y Sefydliadau Cynnal yn rhan o'r rhaglen?

A: Ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddwyd ein cynlluniau ar gyfer y rhaglen yn eang, gan wahodd unrhyw sefydliadau celfyddydol a diwylliannol yn y Deyrnas Unedig i anfon cais atom i gymryd rhan.

Eglurwyd wrth y sefydliadau y byddem yn gofyn iddyn nhw wneud dau brif beth:

- Bod yn agored, yn onest ac yn llwyr ymrwymedig i gyflwyno newidiadau hirdymor yn eu sefydliad, gan ysbrydoli'r sector celfyddydol a diwylliannol i gynyddu ei amrywiaeth economaidd-gymdeithasol.
- Cynnig cyfleoedd datblygu artistig a datblygu gyrfa rhagorol i gefnogi'r genhedlaeth nesaf o artistiaid, curaduron, cynhyrchwyr ac unigolion creadigol ar adeg dyngedfennol yn gynnar yn eu gyrfaedd, gyda golwg ar ddarganfod a chynnal lleisiau artistig newydd.

Cawsom 267 o geisiadau, a dewiswyd 50 o sefydliadau. Y Sefydliadau Cynnal a gafodd eu dewis i weithio gyda ni ar y rhaglen oedd y rhai a allai ddangos yr ymrwymiad mwyaf i gyflawni'r ddwy uchelgais uchod. Wrth ddewis, roeddem hefyd yn ceisio sicrhau bod y swyddi dan sylw yn cynrychioli ystod eang o ffurfiau celfyddydol, ac wedi'u lleoli ar hyd ac ar led y Deyrnas Unedig cymaint ag oedd modd.

C: Mae'r Sefydliadau Cynnal yn recriwtio pobl i swydd greadigol newydd am flwyddyn. Sut arall maen nhw'n rhan o'r rhaglen?

A: Bydd y Sefydliadau Cynnal yn cymryd rhan mewn rhaglen Datblygu Sefydliadol 18 mis i'w cefnogi wrth iddyn nhw ddechrau ar gyfnod o ddatblygu ym maes cynhwysiant ac amrywiaeth. Bydd yr hyfforddiant a roddir wedi'i deilwra i anghenion ac amcanion y sefydliadau sy'n cymryd rhan, gyda phwyslais cryf ar gyd-gynllunio a dysgu gan gyfoedion. Ein partneriaid [people make it work](#) sy'n arwain yr elfen hon o'r rhaglen. Mae pob Sefydliad Cynnal wedi cael sgwrs ffôn 1-1 â thîm Jerwood er mwyn inni ddarganfod mwy am yr hyn maen nhw'n gobeithio'i gyflawni fel rhan o'r rhaglen, a'r heriau maen nhw am eu goresgyn. Cyn recriwtio, mae'r Sefydliadau Cynnal hefyd wedi cymryd rhan mewn wyth awr o weithdai ar-lein ac wedi cael cyswllt â'i gilydd ar Slack. Bydd y gweithdai'n cael eu cynnal yn rheolaidd drwy gydol blwyddyn y Gymrodoriaeth.

Bydd tri unigolyn o bob sefydliad yn cymryd rhan yn y gweithdai, gan gynnwys un Ymddiriedolwr neu aelod o'r corff llywodraethu neu arweinydd awdurdod lleol (yn dibynnu ar strwythur y sefydliad), un aelod o'r Tîm Gweithredol, a Rheolwr Llinell y Cymrawd. Bydd un o'r cyfranogwyr hyn yn uwch arweinydd artistig neu ddiwylliannol.

Bydd pwyslais cryf ar ddatblygu rhwydwaith o gyfoedion i gefnogi drwy gydol y rhaglen, gydag adnoddau digidol i rannu gwersi a ddysgir drwy'r adeg.

C: Beth a olygwn ni drwy sôn am ‘un Ymddiriedolwr neu aelod o’r corff llywodraethu, un aelod o’r Tîm Gweithredol a Rheolwr Llinell y Cymrawd’? Pam ein bod ni wedi gofyn iddyn nhw gymryd rhan yn y rhaglen?

A: Rydym wedi gofyn i bob Sefydliad Cynnal ymrwymo y bydd Ymddiriedolwr neu aelod o’u corff llywodraethu neu arweinydd awdurdod lleol (yn dibynnu ar strwythur eu sefydliad), aelod o’r Tîm Gweithredol a Rheolwr Llinell y Cymrawd yn cymryd rhan weithgar yn y rhaglen. Bydd naill ai’r aelod o’r Tîm Gweithredol neu’r Rheolwr Llinell yn uwch arweinydd artistig neu ddiwylliannol, ac yn ganolog yn y gwaith o ddatblygu a darparu rhaglen artistig neu ddiwylliannol y sefydliad. Ynghyd, bydd y rhain yn gweithio i gefnogi’u Cymrawd, yn gyfrifol am sicrhau bod newid yn digwydd ar lefel weithredol a llywodraethu, ac yn galluogi’r holl staff drwy’r sefydliad i elwa o’r gwersi a ddysgir drwy’r rhaglen.

Ar sail yr ymchwil sydd ar gael a’n profiad ni ein hunain, dyma’r tair swydd sy’n fwyaf allweddol wrth sicrhau bod y Cymrawd yn cael cefnogaeth dda i ffynnu a bod yn y sefydliad ymrwymiad a chefnogaeth ar lefel uchel i gyflwyno newidiadau.

C: Pwy sy’n ariannu’r rhaglen hon?

A: Mae mwy o noddwyr yn rhan o’r rhaglen hon nag erioed o’r blaen, ac mae hynny’n dyst i effaith gynyddol y rhaglen a’r ymrwymiad eang sy’n bodoli i fynd i’r afael â’r diffyg amrywiaeth economaidd-gymdeithasol yn y sector celfyddydol / diwylliannol. Mae’r rhaglen yn cael ei hariannu gan dri o bedwar cyngor celfyddydau’r gwledydd – Rhaglen Trawsnewid Arweinyddiaeth Arts Council England, Cyngor Celfyddydau Cymru a Creative Scotland; gan ein noddwr a’n partner ers tro byd, Sefydliad Garfield Weston; gan ein noddwr a’n partner newydd o’r sector amgueddfeydd ac orielau, Art Fund; ac am yr eildro gan ein noddwr a’n partner o’r sector cerddoriaeth, Sefydliad PRS. Rydym hefyd yn gweithio gyda’n partneriaid hyfforddiant newydd, [people make it work](#), ac am yr eildro gyda’r British Council.

**JERWOOD
ARTS**



Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**

W
Garfield Weston
FOUNDATION

Art Fund



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

**ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**



**BRITISH
COUNCIL**

**PRS
Foundation**

